RHEOLWR RHWYDWAITH DONIAU CYMRU

GWYBODAETH GEFNDIR

Mae Ffilm Cymru Wales yn ymrwymedig i gefnogi twf cynaliadwy yn sector ffilm Cymru a gwella mynediad i fyd ffilm a'i fuddion i bobl Cymru. Gweithiwn ar draws cadwyn gyflenwi'r sector, yn cefnogi datblygiad ffilm, cynhyrchu, sinemâu, gwyliau ffilm ac addysg ffilm a'r cyfryngau, gan gynnig cyngor, cyllid, datblygiad sgiliau ac eiriolaeth.

Rydym yn annog gwneuthurwyr ffilm a gyllidwn i brofi a phrototeipio eu syniadau, cydweithio â diwydiannau creadigol eraill i nodi unrhyw botensial eiddo deallusol ychwanegol sydd i'w syniad, a chysylltu â'u cynulleidfaoedd ar y camau cynharaf o ddatblygu'u prosiect (cliciwch fan hyn i gael mwy o wybodaeth).

Yn ganolog i'n holl waith y mae ein hymrwymiad i gynhwysiant: rydym yn hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl weithgareddau a gweithiwn yn frwdfrydig tuag at dargedau cynhwysiant a luniwyd o wybodaeth y Cyfrifiad yng Nghymru ac yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Rhan hanfodol o'n gwaith yw rheoli a chyflawni Rhwydwaith Doniau Cymru, a gyllidir gan y BFI. Ffocws y gwaith hwn yw nodi a meithrin gwneuthurwyr ffilm dawnus newydd ac addawol er mwyn eu paratoi i greu eu ffilm hir gyntaf. Mae Rhwydwaith Doniau Cymru'n gweithredu oddi mewn i dîm creadigol Ffilm Cymru Wales, gan gydweithio hefyd â rhwydweithiau doniau eraill a gyllidir gan y BFI ledled y Deyrnas Unedig a chyda thîm gweithredol y BFI yn ganolog. Mae Rhwydwaith Doniau Cymru'n darparu amrywiaeth o fentrau cymorth i ddoniau newydd ac addawol a anwyd yng Nghymru neu sy'n seiliedig yng Nghymru, gan gwmpasu'r tri maes canlynol:

Beacons – cynllun ffilmiau byr blynyddol
Horizons – datblygu prosiect ffilm hir neu fentora unigol
Connector – grwpiau/rhwydweithiau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â ffilm

Yn ychwanegol at hyn, gall Rhwydwaith Doniau Cymru gynnal digwyddiadau Launchpad wedi'u targedu sy'n ceisio ysgogi ceisiadau gan gymunedau yng Nghymru sydd wedi'u tangynrychioli.

I gael mwy o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales, gweler ein gwefan a'n Hadroddiadau Blynyddol. I gael mwy o wybodaeth am y BFI, gweler www.bfi.org.uk

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Bydd Rheolwr Rhwydwaith Doniau Cymru'n arwain ar gyflawni ein mentrau i ddoniau a gyllidir gan y BFI, i rai sy'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol at gynnal ein carfan bresennol o brosiectau rhwydwaith, bydd deiliad y swydd yn nodi a meithrin gwneuthurwyr ffilm newydd ac addawol; byddant yn cynnig cymorth i symud doniau yn eu blaen tuag at greu eu ffilm hir gyntaf drwy greu ysgolion o gynnydd tuag at gyllid prosiect Ffilm Cymru Wales ar gyfer datblygu a chynhyrchu ffilm hir, fel a ddirprwywyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a/neu gyllidwyr cenedlaethol eraill gan gynnwys cymorth y BFI, fel sy'n briodol i'r prosiect penodol.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio i Bennaeth Busnes Creadigol ac yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y tîm creadigol, yn arbennig y Gweithredw(y)r Datblygu, er mwyn nodi a hyrwyddo doniau, prosiectau a'r gefnogaeth 'fwyaf addas'. Bydd Cydlynydd Rhwydwaith Doniau Cymru'n darparu cymorth gweinyddol a logisteg i Reolwr Rhwydwaith Doniau Cymru, yn ogystal â chynorthwyo gydag allgymorth i ddoniau a chynrychioli'r Rhwydwaith mewn digwyddiadau priodol yng Nghymru.

PRIF DDYLETSWYDDAU & CHYFRIFOLDEBAU

- Dylunio a chyflawni mentrau cymorth Rhwydwaith Doniau Cymru ar gyfer doniau newydd ac addawol, rheoli'r gyllideb a ddyrannwyd gan y BFI, a chreu partneriaethau a threfniadau cydariannu lle y bo'n briodol i fanteisio ar adnoddau.
- Mae ymyriadau penodol a amlinellir yn cynnwys: rheoli ein cynllun ffilmiau byr, Beacons; rheoli cronfa ein rhwydwaith cymheiriaid, Connector; rheoli ein cronfa i ddatblygu a mentora ffilmiau hir, Horizons. Goruchwylio ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn hyd at gwblhau, gan gynnwys y Labordy, Straeon Iris, Gwneuthurwr Ffilm Preswyl Opera Cenedlaethol Cymru, ac unrhyw weithgarwch arall a ariannir gan y rhwydwaith.
- Bod yn rheolwr llinell i Gydlynydd y Rhwydwaith, cynnal systemau, gweithdrefnau a chasglu data yn unol â gofynion sefydliadol Ffilm Cymru Wales a chyllidwyr, a nodi gwersi i'w dysgu a'u defnyddio i fireinio camau cymorth parhaus.
- Ymgymryd â chyfarfodydd rheolaidd gyda rhwydweithiau doniau a chymheiriaid i ddod o hyd i wneuthurwyr ffilm addawol a chyfnewid gwybodaeth a gwersi gyda chymorth Cydlynydd Rhwydwaith Doniau Cymru.
- Asesu cyflwyniadau (ynghyd â staff perthnasol Ffilm Cymru Wales) a dyfarniadau cyllido wedi'u cytuno ar bapur yn unol â'n templedi cyllido.
- Cynnal y garfan o brosiectau'r Rhwydwaith, nodi a pharu mentoriaid a phartneriaid eraill gyda doniau a hwyluso'r arfer o ddarparu adborth creadigol a masnachol i brosiectau a gyllidir drwy ddarllenwyr sgript, penodi golygyddion neu weithredwyr sgript, profi cynulleidfaoedd/pryfocwyr/ymchwil, ac os oes angen, cymorth mewnol uniongyrchol.
- Nodi'r prosiectau hynny sydd â'r potensial i symud ymlaen at ffilmiau hir cyntaf ac ehangu ymwybyddiaeth o ddoniau addawol ledled rhwydwaith y Deyrnas Unedig, gyda chymheiriaid a phartïon eraill sydd â diddordeb.
- Cydweithio â chynrychiolwyr rhwydwaith doniau'r BFI ar draws y Deyrnas Unedig a thîm doniau'r BFI i broffilio doniau addawol a thrafod cyfleoedd i symud y doniau hynny yn eu blaen.
- Gweithio i Bennaeth Busnes Creadigol Ffilm Cymru Wales i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i ddoniau addawol i ddarparu'r gwerth gorau, gan gynnwys nodi cyfleoedd i ddoniau'r rhwydwaith gymryd rhan yng ngharfannau Magnifier a gyllidir gan Gyngor Celfyddydau Cymru i nodi potensial eiddo deallusol ehangach a chyfleoedd i adeiladu cynulleidfa, neu arddangos enghreifftiau o arferion gorau o ran dulliau cynhwysol ym maes creu ffilmiau, er enghraifft.
- Gweithio'n golegol gyda chydweithwyr eraill yn nhîm Creadigol Ffilm Cymru Wales i sicrhau dull cydgysylltiedig o ddatblygu doniau yng Nghymru.
- Cydweithio'n agos â Rheolwr Arddangos, Addysg ac Adfywio Ffilm Cymru Wales, i geisio cyfleoedd i gysylltu doniau, prosiectau a mentrau â Rhwydwaith Cynulleidfa'r BFI (Canolfan Gelfyddydau Chapter yw'r sefydliad arweiniol i'r rhwydwaith hwnnw yng Nghymru) a darpariaeth addysg y BFI, yn ogystal â'r rhwydwaith o ymarferwyr ffilm a'r cyfryngau sy'n seiliedig yng Nghymru i ddatblygu synergeddau ac arbedion maint ac ychwanegu gwerth ar draws yr ymyriadau ffilm hyn.
- Datblygu cyfleoedd i greu asedau digidol y gellir eu rhannu gyda gwefan ddoniau'r BFI (e.e. dosbarthiadau meistri wedi'u recordio, podlediadau, sesiynau rhyngweithiol ac e-gyhoeddiadau, er enghraifft), 'Hwb' Llywodraeth Cymru, cronfa ddata addysg Ffilm Cymru Wales, ac fel arall.
- Trafod gyda chronfeydd ffilm cenedlaethol eraill, Film London a Creative Skillset er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig a chyflenwol o ddatblygu doniau ledled y Deyrnas Unedig.
- Siarad ar blatfformau cyhoeddus a chynrychioli'r Rhwydwaith yn nigwyddiadau'r diwydiant.
- Sefydlu a chynnal perthnasoedd yn y diwydiant gydag asiantau, cwmnïau cynhyrchu, darlledwyr, asiantau gwerthu,

dosbarthwyr, cyllidwyr a sefydliadau cysylltiedig y cyfryngau creadigol a'r celfyddydau.

- Nodi unrhyw fylchau sy'n amlwg yn y gynrychiolaeth ar bwynt ceisiadau er mwyn cynllunio allgymorth neu gymorth wedi'i dargedu lle bo angen yn unol â chynllun Cynhwysiant ac Amrywiaeth Ffilm Cymru Wales yng nghyd-destun Cymru a Safonau Amrywiaeth y BFI.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill fel a allai fod yn rhesymol ofynnol.

MANYLION Y PERSON

- Profiad sylweddol o asesu a datblygu prosiectau ffilm hir a chefnogi doniau creadigol.
- Craffter creadigol a masnachol rhagorol.
- Profiad llwyddiannus y mae modd ei ddangos o ganfod doniau creadigol a'i helpu i dorri drwodd.
- Sgiliau rheoli prosiect sicr.
- Rhywfaint o brofiad o reoli digwyddiadau.
- Amrywiaeth eang o berthnasoedd cyfredol yn y diwydiannau ffilm a chreadigol / diwylliannol ar lefel ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.
- Ymwybyddiaeth helaeth o dueddiadau'r diwydiant a chwaraewyr allweddol.
- Galluoedd sicr o ran adeiladu partneriaeth a rheoli cyllideb.
- Sgiliau negodi, cyfathrebu a chyflwyno rhagorol.
- Yn gallu rheoli dyddiadur, gohebiaeth a theithio eich hun.
- Dwyieithog – Cymraeg/Saesneg – yn ddymunol.

Mae gan Ffilm Cymru Wales Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal.